



Mynegai Anabledd



Oes gan eich plentyn gyflwr neu nam sy'n effeithio ar ei fywyd? Os felly, gallwch ei gofrestru ar gyfer y Mynegai Anabledd...

Beth yw'r Mynegai?

Mae'r Fynegai yn gofrestr o blant a phobl ifanc yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, y mae ganddynt anableddau ac anghenion ychwanegol.

Nod y Mynegai yw:

- Mae'n rhoi darlun clir o nifer y plant a'r bobl ifanc yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg sydd ag anableddau ac anghenion ychwanegol, ac mae hyn yn helpu asiantaethau i gydweithio er mwyn cynllunio gwasanaethau gwell. Mae'r asiantaethau hyn yn cynnwys: Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg, Iechyd a sefydliadau gwirfoddol;
- Nodi a dylanwadu ar wasanaethau, ar sail anghenion presennol plant a phobl ifanc y mae ganddynt anableddau ac anghenion ychwanegol, a'u hanghenion yn y dyfodol;
- Helpu i roi gwybod i deuluoedd am wasanaethau a gweithgareddau sydd ar gael iddynt;
- Rhoi cyfle i reini/gofalwyr drafod eu hanghenion ac awgrymu ffyrdd o wella gwaith cynllunio a chydlynu gwasanaethau.



Pwy all gofrestru ar gyfer y Mynegai Anabledd?

Er mwyn cofrestru ar gyfer y Mynegai, rhaid i chi:

- Wedi cael diagnosis anabledd, yn mynd trwy'r broses o gael diagnosis neu wedi cael cadarnhad bod ganddynt anghenion ychwanegol parhaus;
- fod rhwng 0 a 18 mlwydd oed.

Pam y dylech gofrestru ar gyfer y Mynegai?

Pan fyddwch wedi cofrestru, byddwch yn:

- Derbyn y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch gwasanaethau a gweithgareddau;
- Derbyn cylchlythyr chwarterol 'y Mynegai' a llythyrau penodol;
- Cael cyfle i gyfrannu erthyglau, a rhannu newyddion a digwyddiadau ag eraill ar y Mynegai;
- Helpu a dylanwadu ar y mathau o wasanaethau sy'n cael eu cynnig a'u datblygu.



Pa wybodaeth y mae ei hangen arnom?

- Gwybodaeth sylfaenol e.e. enw, dyddiad geni, manylion cyswllt, ysgolion;
- Manylion yr anabledd (os ydych yn eu gwybod) ac unrhyw anghenion ychwanegol;
- Manylion y gwasanaethau a ddefnyddir/derbynnir;
- A oes angen rhagor o wybodaeth neu gymorth arnoch chi.

Pwy fydd yn gweld y wybodaeth?

- Byddwn yn cadw'r wybodaeth yn gyfrinachol ar system ddiogel ym mhob Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd;
- Ni rennir eich manylion personol ag unrhyw un oni bai eich bod yn cytuno ar hynny;
- Dim ond o gael cais gan asiantaethau sy'n gyfrifol am gynllunio/darparu gwasanaethau ar gyfer plant y mae ganddynt anghenion ychwanegol y bydd gwybodaeth ystadegol ddiennw ar gael;
- Bydd yr holl ddata a cheisiadau am wybodaeth yn cael eu gweinyddu'n llym gan Weinyddwr y Mynegai Anabledd dan Ddeddf Diogelu Data 1998;
- Mae cofrestru ar gyfer y Mynegai'n gwbl wirfoddol.



Gweinyddwyr y Mynegai Anabledd:

Caerdydd

Gwasanaeth Gwybodaeth
i Deuluoedd
Y Ganolfan Gynadledda
East Moors Road
Caerdydd CF24 5RR
Ffôn: 029 2035 1700

Bro Morgannwg

Gwasanaeth Gwybodaeth i
Deuluoedd
Swyddfa'r Dociau
Subway Road
Y Barri CF63 4RT
Ffôn: 01446 704736

E-bost: DisabilityIndex@cardiff.gov.uk

Gwefan: www.ggd-caerdydd.info

E-bost: DisabilityIndex@valeofglamorgan.gov.uk

Gwefan: www.valeofglamorgan.gov.uk/disabilityindex

Os ydych am dderbyn gohebiaeth ar ffurf arall e.e. print bras, Braille, ieithoedd eraill, CD, cysylltwch â Gweinyddwr y Mynegai.



Manylion Cyswllt Defnyddiol:

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro:

Canolfan Plant Llandochau	– 029 2070 5580
Canolfan Plant Dewi Sant	– 029 2053 6789
Cyfarwyddiaeth Iechyd Plant Caerdydd a'r Fro	– 029 2074 7662

Cyngor Dinas Caerdydd:

Tîm Iechyd ac Anableddau Plant	– 029 2053 6400
Tîm o Amgylch y Teulu (Anabledd)	– 029 2022 8033

Cyngor Bro Morgannwg:

Tîm Iechyd ac Anableddau Plant	– 01446 704285
Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc	– 01446 725202

Cynhyrchwyd y daflen hon gan Gyngorau Dinas Caerdydd a Bro Morgannwg mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cydweithio er mwyn cynllunio gwasanaethau ar gyfer plant anabl hyd at 18 mlwyd oed.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board



Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd
Family Information Services

